

Canllaw i welliannau i Filiau Cyhoeddus

Mehfin 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Tel: 0300 200 6565

Email: Cysyllt@senedd.cymru

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Egwyddorion arweiniol	4
Gwelliannau testun ar wahân	4
Trefn ymdrin	4
Hysbysiad ynghylch gwelliannau.....	6
Rhestr o Welliannau wedi'i Didoli	7
Grwpio gwelliannau.....	9
Y trafodion ynghylch y gwelliannau.....	11
Galw gwelliannau.....	12
Cynnig gwelliannau, peidio â'u cynnig a thynnu gwelliannau yn ôl.....	13
Pleidleisio ar welliannau	14
Cytuno ar adrannau ac atodlenni.....	14

Cyflwyniad

- 1.** Mae'r canllaw hwn yn egluro'r rheolau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â gwelliannau. Mae'n egluro:
 - yr egwyddorion arweiniol o ran gwaredu gwelliannau;
 - Hysbysiadau ynghylch Gwelliannau (Rhestrau Dyddiol) a Rhestrau o Welliannau wedi'u Didoli;
 - y trafodion ynghylch gwelliannau.
- 2.** Cynnig i newid geiriad Bil yw gwelliant. Dyma'r unig ddull y gellir ei ddefnyddio i gynnig newid i Fil a rhaid iddo gydymffurfio â rheolau ar welliannau derbyniadwyedd, ac arddull a chynnwys gwelliannau.
- 3.** Mae gwelliant hefyd yn ddull pwysig ar gyfer galluogi trafodaethau ar ddarpariaethau Bil. Gellir cyflwyno rhai gwelliannau, a elwir yn 'welliannau procio', yn bennaf i alluogi trafodaeth i gael ei chynnal ar bwnc penodol, heb unrhyw fwriad i newid testun y Bil.
- 4.** Caiff unrhyw Aelod o'r Senedd gyflwyno gwelliant i Fil. Fodd bynnag, yng Nghyfnod 2 y trafodion, fodd bynnag, dim ond aelodau o'r pwyllgor cyfrifol a gaiff gynnig gwelliannau a phleidleisio arnynt.
- 5.** Er mwyn i welliant gael ei dderbyn ar gyfer ei gyflwyno, rhaid iddo gydymffurfio â [Phenderfyniad y Llywydd ar Ffurf Briodol Gwelliannau i Filiau Cyhoeddus](#), a'r rheolau ynghylch gwelliannau derbyniadwy. I gael rhagor o wybodaeth am gyflwyno gwelliannau, gweler y [Canllawiau ar sut i gyflwyno gwelliannau i Filiau Cyhoeddus](#).

Egwyddorion arweiniol

6. Mae'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â gwelliannau wedi'u seilio ar ddwy egwyddor arweiniol:

- y rheol gwelliannau testun ar wahân;
- y drefn ymdrin.

Gwelliannau testun ar wahân

7. Yr egwyddor gyntaf yw bod pob newid o sylwedd i destun Bil yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno a chynnig gwelliant unigol a'i dderbyn.

8. Pan fydd pwyllgor neu'r Senedd yn cytuno ar welliant, bydd union eiriad y gwelliant yn cael ei gymhwyso yn y Bil ac yn cael effaith gyfreithiol. Ni chaiff pwyllgor neu'r Senedd wneud penderfyniad ar yr egwyddor sy'n sylfaen i newid testun Bil yn unig; rhaid iddo benderfynu hefyd ar yr union ddull ar gyfer gwneud y newid hwnnw.

9. Darperir ar gyfer derbyniadwyedd gwelliannau gan reol Sefydlog 26.61 a [Phenderfyniad y Llywydd ar Ffurf Briodol Gwelliannau i Filiau Cyhoeddus](#).

10. Mae rhagor o fanylion yn y [Canllawiau ar sut i gyflwyno gwelliannau i Filiau Cyhoeddus](#).

Trefn ymdrin

11. Yr ail egwyddor yw bod yn rhaid i welliannau gael eu hystyried a'u gwaredu mewn trefn fanwl. Gelwir hyn yn 'drefn ystyried'.

12. Mae Rheolau Sefydlog 26.21 (ar gyfer Cyfnod 2) a 26.36 (ar gyfer Cyfnod 3) yn darparu ar gyfer trefn ystyried 'ragosodedig'; bod gwelliannau i'w gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil. Mae modd amrywio'r drefn hon naill ai gan bwyllgor, neu gan y Senedd, yn ôl fel y digwydd, ond unwaith y cytunir arni, rhaid ei dilyn.

13. Nid oes modd ailedrych ar bwynt yn gynharach yn y drefn ystyried na'r gwelliant olaf a waredwyd ar y cyfnod penodol. Unwaith y bydd pob gwelliant i adran neu atodlen benodol o Fil wedi cael eu gwaredu (neu os na chyflwynwyd

gwelliannau i adran/atodlen benodol, bernir ei bod wedi'i derbyn wrth ei chyrraedd yn y drefn ystyried), mewn cyfnod penodol, nid oes modd ailedrych ar yr adran neu'r atodlen honno yn y cyfnod hwnnw.

Hysbysiad ynghylch gwelliannau

14. Yr Hysbysiad ynghylch Gwelliannau (a elwir hefyd yn Rhestr Ddyddiol) yw rhestr o bob gwelliant a gyflwynwyd ar ddiwrnod penodol, yn y drefn y cyflwynwyd y gwelliannau.

15. Gellir cyflwyno gwelliannau i Fil yng Nghyfnod 2 o'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl cwblhau Cyfnod 1. Gellir cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3 o'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl cwblhau Cyfnod 2. Yn ystod y cyfnod cyflwyno ar gyfer pob Bil, mae Hysbysiad ynghylch Gwelliannau yn cael ei gyhoeddi ar gyfer pob diwrnod y mae gwelliannau yn cael eu cyflwyno ar dudalen we y Bil. Rhaid cyflwyno gwelliannau nad ydynt yn welliannau hwyr (gweler y [Canllawiau ar sut i gyflwyno gwelliannau i Filiau Cyhoeddus](#)) heb fod yn hwyrach na phum niwrnod gwaith cyn y cyfarfod lle y byddant yn cael eu hystyried (Rheol Sefydlog 26.59). Yn ôl confensiwn, fel arfer mae Gweinidogion Cymru yn cyflwyno gwelliannau heb fod yn hwyrach na saith niwrnod gwaith cyn y cyfarfod lle y byddant yn cael eu hystyried.

16. Mae rhagor o fanylion am gyflwyno gwelliannau ar gael yn y [Canllawiau ar sut i gyflwyno gwelliannau i Filiau Cyhoeddus](#).

17. Ar gyfer pob gwelliant, bydd yr Hysbysiad ynghylch Gwelliannau yn cynnwys:

- y rhif gwelliant unigryw, yn ôl y drefn y cafodd y gwelliannau eu cyflwyno;
- testun y gwelliant;
- enw'r Aelod a gyflwynodd y gwelliant;
- unrhyw destun esboniadol a gyflwynwyd gan yr Aelod i gyd-fynd â'i welliant;
- enwau unrhyw Aelodau sydd wedi ychwanegu eu henwau i gefnogi'r gwelliant.

18. Os bydd unrhyw newidiadau dilynol yn cael eu gwneud i Hysbysiad ynghylch Gwelliannau, er enghraifft os yw gwelliant yn cael ei dynnu'n ôl neu os bydd Aelod yn ychwanegu ei enw i gefnogi gwelliant, caiff y gwelliant perthnasol ei farcio gyda seren a bydd rhif y fersiwn yn y troedyn yn yr Hysbysiad ynghylch Gwelliannau yn cael ei ddiweddarau.

Rhestr o Welliannau wedi'i Didoli

19. Mae'r Rhestr o Welliannau wedi'i didoli yn rhestr o'r holl welliannau a gyflwynwyd i Fil penodol, yn y drefn y pleidleisir arnynt (sef fel arfer y drefn y byddant yn ymddangos ynddi os cânt eu hymgorffori i'r Bil). Y 'drefn ystyried' yw'r drefn y caiff adrannau ac atodlenni'r Bil eu hystyried. I gael rhagor o wybodaeth am y drefn ystyried, gweler y Canllaw i'r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus.

20. O fewn y drefn ystyried, caiff gwelliannau i bob adran neu atodlen eu rhestru yn y drefn y bydd pob un yn effeithio am y tro cyntaf ar yr adran neu'r atodlen y maent yn cyfeirio ati yn y testun Saesneg.

21. Os oes mwy nag un gwelliant yn effeithio ar yr un man yn y testun, cânt eu didoli yn unol â'r rheolau a ganlyn:

- bydd gwelliannau i ddileu adran neu atodlen gan roi adran neu atodlen newydd yn ei lle yn cael eu cymryd yn gyntaf;
- bydd gwelliannau i ddileu adran neu atodlen yn cael eu cymryd nesaf; a
- bydd gwelliannau i ddiwygio'r testun presennol mewn adran neu atodlen yn cael eu cymryd yn olaf.

22. Os nad oes gwahaniaeth o'r fath rhyngddynt, bydd gwelliannau yn enw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil yn cael blaenoriaeth, ac wedyn bydd y gweddill yn cael eu trafod yn y drefn y cawsant eu cyflwyno.

23. Caiff gwelliannau i gynnwys adrannau neu atodlenni newydd eu hystyried yn ôl y man lle y bwriedir eu cynnwys yn y Bil. Fel ag yn achos y dull o ddidoli gwelliannau eraill, caiff gwelliant a gyflwynir gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil sydd â'r bwriad o gynnwys adran neu atodlen newydd flaenoriaeth dros y rheini a gyflwynir gan Aelodau eraill sy'n ceisio cynnwys adran neu atodlen newydd yn yr un man yn y Bil.

24. Caiff gwelliant i welliant ei restru yn union cyn y gwelliant y mae'n ceisio ei wella.

25. Fel arfer caiff Rhestr derfynol o welliannau wedi'i Didoli ei chyhoeddi ar dudalen we y Bil dau ddiwrnod o leiaf cyn y trafodion. Bydd unrhyw newidiadau dilynol i'r Rhestr o welliannau wedi'i didoli, er enghraifft aelodau ychwanegol yn ychwanegu eu henwau er mwyn cefnogi gwelliant, neu dynnu gwelliant yn ôl yn

cael eu marcio gyda seren, a bydd rhif y fersiwn yn nhroedyn y Rhestr o welliannau wedi'i didoli yn cael ei diweddarau.

Grwpio gwelliannau

26. Ar ôl cynhyrchu Rhestr o welliannau wedi'i didoli, caiff y gwelliannau eu haildrefnu yn y drefn y cânt eu trafod, lle y cânt eu grwpio yn ôl pwnc er mwyn i'r drafodaeth lifo'n rhesymegol (gelwir hyn yn 'Rhestr Grwpio'). Caiff Cadeirydd y pwyllgor (ar gyfer trafodion Cyfnod 2) neu'r Llywydd (ar gyfer trafodion Cyfnod 3 a thrafodion y cyfnod Adrodd) grwpio gwelliannau at ddibenion dadleuon (Rheol Sefydlog 26.64). Bydd gwelliannau sy'n ymdrin â phwnc tebyg yn cael eu grwpio gyda'i gilydd fel rheol i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ailadrodd yn ystod y trafodion.

27. Mae tair prif egwyddor sy'n sail i grwpio gwelliannau:

- caiff gwelliannau sy'n sefyll neu'n syrthio gyda'i gilydd, neu sydd i raddau llai yn ddibynnol ar ei gilydd, eu grwpio.
 - Er enghraifft, mae'n bosibl y ceir cyfres o welliannau drwyddo draw i Fil i newid enw sefydliad, lle na fyddai dim pwynt derbyn unrhyw un gwelliant o'r fath heb dderbyn bob gwelliant arall hefyd, a phan fydd un ddadl ar y mater yn unig ofynnol. Achos clir arall fyddai cael gwelliant i fewnosod atodlen newydd a gwelliant i fewnosod darpariaeth i gyflwyno'r atodlen, lle y byddai'r Bil yn ddiffygiol pe byddai'n cynnwys un ac nid y llall.
- caiff gwelliannau sy'n cynrychioli ffyrdd amgen o roi sylw i'r un mater, neu sydd fel arall yn perthyn yn agos o ran y mater y maent yn ei drafod, eu grwpio.
 - Mae'n bosibl y bydd hyn yn golygu bod dulliau amgen sy'n cystadlu'n uniongyrchol â'i gilydd, lle na fyddai'n gwneud synnwyr i dderbyn yr holl welliannau a lle mae'r materion a godir yr union yr un fath. Er enghraifft, lle mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfnod rhybudd penodedig (ee un mis) a bod gwelliannau ar gyfer cynnwys gwahanol gyfnodau (ee dau fis, tri mis, chwe mis).
- bydd gwelliannau i welliannau bob amser yn cael eu grwpio gyda'r gwelliannau y maent yn perthyn iddynt. Yn yr un modd, caiff gwelliannau eu grwpio gydag unrhyw welliannau y byddent yn achub y blaen arnynt, i sicrhau cyfle i drafod y gwelliannau diweddarach. Am

ragor o wybodaeth am welliannau fyddai'n achub y blaen ar eraill,
gweler y Canllawiau ar sut i gyflwyno gwelliannau i Filiau Cyhoeddus.

28. Cyhoeddir y grwpiau fel arfer ar dudalen we y Bil o leiaf dau ddiwrnod cyn y trafodion.

Y trafodion ynghylch y gwelliannau

29. Fel y nodwyd uchod, yn aml bydd gwelliannau'n cael eu grwpio er mwyn hwyluso dadleuon. Nid yw grwpio yn effeithio ar y drefn galw gwelliannau a'u symud i benderfyniad (h.y. cynnal pleidlais arnynt); y Rhestr o Welliannau wedi'i didoli sy'n nodi hynny.

30. Bydd dadl ar wahân yn cael ei chynnal ar bob grŵp o welliannau. Y ddadl ar grŵp yw'r unig gyfle a gaiff Aelodau i siarad ar unrhyw welliannau yn y grŵp hwnnw; ni ellir trafod gwelliannau eto pan gânt eu gwaredu (Rheol Sefydlog 26.64).

31. Ar gyfer pob grŵp o welliannau, bydd y ddadl yn dilyn y ffurf ganlynol:

- bydd y cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) yn galw cynigydd y gwelliant cyntaf yn y grŵp ("y prif welliant"), i gynnig ei welliant ac i siarad am y prif welliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.
- bydd y cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) yn gwahodd cynigwyr y gwelliannau eraill yn y grŵp i siarad am eu gwelliant hwy a'r gwelliannau eraill yn y grŵp (nid yw'r gwelliannau hyn yn cael eu cynnig ar yr adeg hon, ond byddant yn cael eu galw gan y Cadeirydd ar yr adeg briodol yn ystod y trafodion).
- bydd y cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) yn gwahodd aelodau eraill y pwyllgor (neu'r Senedd, yn ôl fel y digwydd) i siarad am y gwelliannau yn y grŵp.
- bydd y cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) yn gwahodd y Gweinidog i siarad.
- bydd y cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) yn gwahodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil i siarad.
- bydd y cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) yn gwahodd cynigydd y prif welliant i ymateb i'r drafodaeth.

- bydd y cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) yn gofyn i gynigydd y prif welliant a yw'n dymuno symud i bleidlais ar y gwelliant, neu ei dynnu'n ôl.
- bydd y prif welliant yn cael ei waredu yn briodol.

32. Unwaith y bydd y prif welliant wedi'i waredu, gelwir unrhyw welliannau eraill yn y grŵp ar yr adeg briodol yn ystod y trafodion.

33. Yn unol â'r Rhestr o Welliannau wedi'i didoli, bydd y cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) naill ai'n symud i ddadl ar y grŵp nesaf o welliannau neu i bleidlais ar welliant y bu trafodaeth yn ei gylch eisoes fel rhan o grŵp cynharach.

Galw gwelliannau

34. Bydd y Cadeirydd (neu'r Llywydd, fel yn ôl fel y digwydd) yn galw'r gwelliannau yn eu tro o'r Rhestr o Welliannau wedi'i didoli. Mae pob gwelliant yn cael ei alw ac, os yw'n cael ei gynnig, mae'n cael ei waredu yn unigol yn ei le yn y rhestr.

35. Yr unig sefyllfa lle y gallai gwelliant ar y Rhestr o Welliannau wedi'i didoli beidio â chael ei alw yw lle y byddai gwneud hynny'n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud yn gynharach yn ystod y trafodion. Mae achosion fel hyn yn cael eu disgrifio fel "achub y blaen".

36. Bydd hyn yn digwydd mewn achos lle y byddai un gwelliant, pe cytunir arno, yn dileu'r testun y mae gwelliant dilynol yn dibynnu arno. Er enghraifft, byddai gwelliant i ddileu isadran (1) pe byddai'n cael ei gytuno yn achub y blaen ar unrhyw welliant i'r isadran honno ac felly byddai'n 'methu'.

37. Cyn i'r pwyllgor (neu'r Senedd, yn ôl fel y digwydd) waredu gwelliant a fyddai'n 'achub y blaen' ar welliant arall, bydd y cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) yn tynnu sylw'r Aelodau at yr achos o 'achub y blaen' a allai ddigwydd. Yn yr un modd, os yw achos o 'achub y blaen' wedi digwydd, ar y cam priodol yn y trafodion bydd y cadeirydd yn tynnu sylw'r pwyllgor at achos lle y mae gwelliant wedi methu o ganlyniad i benderfyniad ar welliant cynharach.

Cynnig gwelliannau, peidio â'u cynnig a thynnu gwelliannau yn ôl

38. Rhaid i welliant gael ei gynnig cyn y gellir symud i bleidlais. At hynny, er mwyn cynnal dadl ar grŵp o welliannau, rhaid i'r prif welliant gael ei gynnig.

39. Ar unrhyw adeg ar ôl i'r prif welliant gael ei gynnig, ond cyn cynnal pleidlais arno, caiff yr Aelod a'i cynigiodd ofyn am gael ei dynnu'n ôl. Os bydd hynny'n digwydd, rhaid i'r cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) ofyn i'r pwyllgor (neu'r Senedd, yn ôl fel y digwydd) a yw'n cytuno i'r gwelliant gael ei dynnu'n ôl. Os bydd unrhyw aelod o'r pwyllgor (neu'r Senedd, yn ôl fel y digwydd) yn gwrthwynebu, ni ellir tynnu'r gwelliant yn ôl a rhaid cynnal pleidlais arno. Os na fydd gwrthwynebiad, bydd y gwelliant yn cael ei dynnu'n ôl a bydd y trafodion yn parhau (Rheol Sefydlog 26.66).

40. Yn achos gwelliannau nad ydynt yn brif welliannau, os nad yw'r Aelod y mae'r gwelliant yn ymddangos yn ei enw yn dymuno bwrw ymlaen i bleidlais ar ei welliant ar ôl y drafodaeth arno, dylai ddweud "Peidio â'i gynnig" pan gaiff y gwelliant ei alw.

41. Os bydd hynny'n digwydd, gall unrhyw aelod arall o'r pwyllgor hwnnw gynnig y gwelliant yng Nghydfod 2, neu yng Nghyfnod 3 a chyfnodau diwygio dilynol, gan unrhyw Aelod arall (Rheol Sefydlog 26.65).

42. Er y gall unrhyw Aelod gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, dim ond aelod o'r pwyllgor sy'n gallu cynnig a phleidleisio ar welliannau. Os yw Aelod nad yw'n aelod o'r pwyllgor yn dymuno cynnig ei welliant er mwyn cynnal trafodaeth a phleidleisio arno, bydd angen iddo ofyn i aelod o'r pwyllgor wneud hyn ar ei ran (gallai hyn gynnwys y cadeirydd).

43. Yn unol â Chonfensiwn y Pwyllgor Busnes a fabwysiadwyd yn y Trydydd Cynulliad, cynigir gwelliannau a gyflwynir gan yr Aelod sy'n gyfrifol, neu, yn achos deddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth y Llywodraeth, y Gweinidog perthnasol, gan Gadeirydd y pwyllgor bob amser.

Pleidleisio ar welliannau

44. Pan fydd gwelliant sydd wedi'i drafod yn cael ei alw, bydd y Cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) yn 'gofyn y cwestiwn', yn arferol drwy ddweud –

"Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant x. A oes unrhyw wrthwynebiad?"

45. Os nad oes gwrthwynebiad, bernir bod y gwelliant wedi'i dderbyn (Rheol Sefydlog 17.34 a 12.36). Gelwir hyn yn bleidlais 'drwy amneidio'.

46. Pan fydd Aelod yn gwrthwynebu, cynhelir pleidlais ar y gwelliant o dan sylw. Gall Aelodau bleidleisio o blaid, yn erbyn, ymatal, neu ddewis peidio â phleidleisio. Ceir pleidlais mewn pwyllgor drwy godi dwylo (Rheol Sefydlog 17.35). Yr arfer safonol hyd yma ar gyfer trafodion Cyfnod 2 fu i bob pleidlais gael ei chofnodi a'i chyhoeddi yng nghofnodion y cyfarfod. Yn y Cyfarfod Llawn, ceir pleidlais drwy system bleidleisio electronig ac mae manylion y pleidleisiau yn cael eu cofnodi a'u cyhoeddi yn y Cofnod o Drafodion a'r Pleidleisiau a Thrafodion.

47. Mae'n ofynnol bod mwyafrif syml o blaid gwelliant i'w dderbyn. Os digwydd pleidlais gyfartal, rhaid i bleidlais fwrw'r cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) ar welliant gael ei rhoi yn negyddol, h.y. yn erbyn y gwelliant (Rheol Sefydlog 6.20).

Cytuno ar adrannau ac atodlenni

48. Os na fydd gwelliant wedi'i gyflwyno i adran o Fil (neu atodlen iddi), bernir bod yr adran neu'r atodlen honno wedi'i derbyn. Oherwydd hyn, yr unig ffordd i drafod adran (neu atodlen) benodol yw drwy gyflwyno gwelliant iddi.

49. Ar ddiwedd y trafodion, bydd y cadeirydd (neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd) yn cyhoeddi yr adrannau neu'r atodlenni hynny y barnwyd eu bod wedi'u derbyn. Os nad yw'r trafodion wedi'u cwblhau ar y cyfnod hwn, gallai fod rhagor o gyfleoedd i Aelodau gyflwyno gwelliannau i'r adrannau a'r atodlenni hynny o'r Bil na farnwyd eu bod wedi'u cytuno eto.